

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 10fed Chwefror, 2020**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr David Brunelli, Michael Strain

77. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

78. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem.

79. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 13eg Ionawr, 2020. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans).

Materion yn codi

(a) Eitem 68 – Datgan Buddiant Personol

Newid geiriad y cofnod yma i:

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem.

(b) Eitem 71 – Materion Ffyrdd a Llwybrau – cymal (c) Arwydd Eglwys Santes Mair Bryncroes

Nodwyd fod y ddau arwydd bellach i fyny ar y gyffordd.

80. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio.

81. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol:

Ty Mawr Capel, Bryncroes – twll dwfn ar y ffordd (wedi tynnu sylw fwy nag unwaith).

Bwthyn Gwyn, Bryncroes – twll dwfn dros y ffodd i'r eiddo yma.

Gofyn am roi caledwch ar y manau pasio rhwng Gwynfa a Thy Mawr Capel, Bryncroes.

82. **MATERION IECHYD**

Ni chodwyd unrhyw fater.

83. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Cradur.com - gwe-letya ac enw parth 2020/21

£30.50

84. **CANOLFAN LLANIESTYN**

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn galwad gan Swyddog o Ganolfan Llaniestyn yn gofyn a oedd y Cyngor yn fodlon dal i'w henw fod fel un o Ymddiriedolwyr y Ganolfan. Wrth edrych yn ôl drwy'r hen gofnodion sylwyd nad oedd y sefyllfa yn hollol glir. Dyfynnir o'r cofnodion:

16eg Mai, 1977 – “Cafwyd ar ddeall gan Mr. T.J. Hughes had oes gan y cyngor hawl i gyfrannu'n arianol at brynu Ysgol Llaniestyn. Bydd hawl cyfrannu tuag a redeg y ganolfan ar ôl iddi gael ei phrynu. Roedd llythyr oddi wrth Ysgrifenyddes y Gronfa yn gofyn i'r Cyngor fod yn ymddiriedolwyr yr ysgol ar ôl iddi gael ei phrynu i'r ardal. Penderfynwyd gaddo mewn egwyddor ac addawodd Mr. T.J. Hughes holi mwy ynglyn a'r hyn a ddisgwyliid gan y Cyngor.”

10fed Mehefin, 1977 – “Dywedodd Mr. T.J. Hughes fod pwyllgor Canolfan Llaniestyn heb benderfynu hyd yn hyn fydd angen ymddiriedolwyr a'i peidio, os bydd, fydd dim cyfrifoldeb ariannol ar y Cyngor. Penderfynwyd gadael y mater hyd nes y clywir oddi wrthynt ymhellach.”

16eg Tachwedd, 1981 “ ..Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Tudweiliog i'r ffaith fod y ffiniau newydd wedi dod i rym er y 1af Ebrill, 1981, felly mae'r cyfan o bentref Llaniestyn yn awr ym mhlwyf Tudweiliog. Addawodd Mri. J.I. Griffith a T.J. Hughes dynnu sylw pwyllgor y Ganolfan i'r ffaith yma oherwydd fod y Cyngor yma'n ymddiriedolwyr y Ganolfan”

(Noder nid oes unrhyw gyfeiriad fod Ymddiriedolwyr wedi eu penodi rhwng 10fed Mehefin, 1977 a 16eg Tachwed, 1981).

18fed Gorffennaf, 1983 – “Canolfan Llaniestyn – penderfynwyd peidio cyfrannu gan fod y ganolfan yn awr y tu allan i ffiniau'r Gymdeithas, rhag creu cysail. Penderfynwyd hysbysu'r pwyllgor o'r penderfyniad ac i nodi y credir y dylent ddewis ymddiriedolwyr o Gymdeithas Tudweiliog yn awr.”

(Nodyn – yn dilyn hyn ni ellir canfod unrhyw gofnod pellach).

Penderfynwyd yn wyneb yr uchod i hysbysu'r Swyddog o Ganolfan Llaniestyn nad yw'r Cyngor yn dymuno bod yn Ymddiriedolwyr y Ganolfan.

85. **ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU**

Nodwyd fod yr Adolygiad Blynyddol Ebrill 2018/Mawrth 2019 i law a chroeso i unrhyw un gael golwg arno.

86. **HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED AR Y COD YMDDYGIAD I AELODAU**

Cyflwynwyd llythyr Sion Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant o 1.30 i 2.00 awr o amser i aelodau'r Cyngor am ffi enwol o £25. Gofynnai a fyddai'r Cyngor yn dymuno cael hyfforddiant eu hunain neu ymuno gyda Chyngor Cymuned arall.

Penderfynwyd derbyn y cynnig, a'r hyfforddiant i fod i Gyngor Botwnnog yn unig, gyda dewis o fis Mawrth neu Ebrill.